# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 4

TRINIAETHAU ARBENNIG

*Gorfodi*

### 84 Pwerau mynediad etc.

(1) Caiff swyddog awdurdodedig, os yw'r swyddog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol at ddiben arfer swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y Rhan hon neu yn rhinwedd y Rhan hon, ar unrhyw adeg resymol fynd i mewn i unrhyw fangre sydd o fewn is-adran (4).

(2) Ond nid yw hyn yn gymwys mewn perthynas â mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd.

(3) Ni chaiff swyddog awdurdodedig fynd i mewn i fangre drwy rym o dan yr adran hon.

(4) Mae mangre o fewn yr is-adran hon os oes gan y swyddog reswm dros gredu—

(a) bod triniaeth arbennig wedi ei rhoi, yn cael ei rhoi neu'n debygol o gael ei rhoi yn y fangre, neu

(b) bod deunydd neu gyfarpar y bwriedir ei ddefnyddio wrth roi triniaeth arbennig, neu mewn cysylltiad â rhoi triniaeth arbennig, yn cael ei gadw neu ei baratoi yn y fangre.

(5) Rhaid i swyddog awdurdodedig, os gofynnir iddo wneud hynny, ddangos tystiolaeth o'r awdurdodiad y cyfeirir ato yn adran 83 cyn mynd i mewn i fangre o dan yr adran hon.

(6) Mae'r adran hon yn gymwys i gerbyd fel pe bai'n fangre.